# POLISI RHANDIROEDD
# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

## 1.0 DATGANIAD POLISI

1.1 Mae rhandiroedd yn bwysig i'n cymunedau, maent yn cryfhau cydlyniant cymunedol, yn hyrwyddo byw'n iach ac yn rhoi cyfleoedd i bobl dyfu eu cynnyrch a bod yn rhan o'r broses hirdymor o hyrwyddo cynaliadwyedd.

1.2 Rydym wedi ymrwymo i reoli'r gwasanaeth rhandiroedd yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r strategaethau a ganlyn:

- Deddf Rhandiroedd 1908, 1925 ac 1950;
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-2023;
- Cynllun Datblygu Lleol
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017 – 2022;

## 2.0 CWMPAS Y POLISI

2.1 Mae'r Polisi hwn yn trafod yr holl Randiroedd dan reolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'u tenantiaid.

## 3.0 AMCANION Y POLISI

3.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhandiroedd sydd:

- Yn cydymffurfio â deddfwriaeth a strategaethau perthnasol;
- Yn cwrdd ag anghenion cymunedau
- Yn cwrdd â gofynion ei denantiaid;
- Yn gwella iechyd a lles cymunedau;
- Yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol;
- Yn gwella'r amgylchedd lleol;
- Yn cyfrannu at gynaliadwyedd ein cymunedau.

## 4.0 CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

4.1 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau mynediad cyfartal at y gwasanaeth rhandiroedd, lle bo hynny'n ymarferol ac yn deall amrywiaeth ein cymunedau. Rydym yn addo i ymateb yn briodol i wahanol anghenion pob un o'n cwsmeriaid.

## 5.0 CYFRIFOLDEB

5.1 Mae gan yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau fod y polisi hwn yn cael ei weithredu'n gyson ac yn deg.

## 6.0 CYFATHREBU

6.1 Bydd y Polisi hwn yn cael ei gyfathrebu i drigolion Sir Conwy a meysydd gwasanaeth sy'n cefnogi darpariaeth y polisi hwn.

## 7.0 MONITRO AC ADOLYGU

7.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, ddiweddaraf ac yn parhau i hyrwyddo arferion da.